# CYFARFOD PENDERFYNIADAU DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Gwener, 10 Medi 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** L.M. Stephens (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
J. Bergiers, Partner Busnes Arweiniol (Iechyd a Diogelwch);
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.30 yb

**1. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 27AIN CHWEFROR, 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain Chwefror, 2020, gan ei fod yn gywir.**

**3. FERSIWN DIWYGIEDIG O'R POLISI IECHYD A DIOGELWCH**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'i ddiweddaru. Roedd y Polisi wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r mân newidiadau canlynol i'r fersiwn flaenorol:

- Cyfeiriad at rôl y Cydgysylltydd Iechyd a Llesiant sydd bellach wedi'i sefydlu;
- Ailenwi'r Grŵp Ymgynghorol a Risg Corfforaethol yn Grŵp Risg Ymgynghorol Cyswllt Eiddo - byddai'r cyfrifoldebau'n aros yr un fath ond cyfeirir atynt bellach fel rhai sy'n gysylltiedig ag eiddo;
- Ailenwi'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Adrannol yn Gyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Adrannol – byddai'r cyfrifoldebau'n aros yr un fath ond byddent yn cael eu cynnal ar lefel adran neu is-adran.

Cyfeiriodd y Partner Busnes Arweiniol (Iechyd a Diogelwch) at sylwadau pellach ac awgrymodd ddiwygiadau a gyflwynwyd ers i agenda'r cyfarfod gael ei hanfon a ystyriwyd gan yr Aelod Cabinet.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'i ddiweddaru, yn amodol ar gynnwys y diwygiadau a dderbyniwyd a nodwyd ac a amlygwyd gan y Partner Busnes Arweiniol (Iechyd a Diogelwch).**

________________________________ ____________________

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**